Teitl yr Ysgoloriaeth:	Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2018
Maes Ymchwil:	Cynyddu Cefnogaeth gyhoeddus i golled bioamrywiaeth trwy negeseuon aml-gyfrwng
Lleoliad:	Ysgol Seicoleg (cyd-oruchwylio gan Ysgol y Gymraeg)
Dyddiad Cychwyn:	1af Hydref, 2018
Cyfnod:	3 mlynedd
Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais:	5pm Dydd Mawrth 12fed Mehefin 2018

Disgrifiad o'r Ymchwil:

Mae Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd yn awyddus i benodi unigolyn brwdfrydig i ymgymryd â phrosiect doethurol ar y cyd a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Ysgol y Gymraeg, *Silverback Films* a'r *WWF*, i edrych ar gyfathrebu ecolegol.
Mae dros 10,000 o rywogaethau yn diflannu bob blwyddyn, gyda gweithgarwch dynol (dinistrio cynefinoedd, masnach bywyd gwyllt, newid yn yr hinsawdd, ac ati) fel y prif achos. Mae colled bioamrywiaeth yn bygwth cyflenwadau bwyd a dŵr, a gwasanaethau ecosystemau eraill. Mae gweithredoedd unigolyn - gan gynnwys dewisiadau defnyddwyr a chefnogaeth dinasyddion i bolisïau - yn gallu achosi, ac o bosib, yn gallu lliniaru colled bioamrywiaeth. Er bod grwpiau ymgyrchu a'r cyfryngau yn darparu gwybodaeth am fygythiadau i fywyd gwyllt ac ecosystemau, dengys tystiolaeth nad yw hyn yn cael fawr o effaith ar ymddygiad yr unigolyn (e.e. Whitmarsh, 2011). Un o'r prif heriau yw cyfuno sgiliau ac adnoddau gweithwyr ac ymgyrchwyr proffesiynol a chreadigol gyda thystiolaeth academaidd ar berswadio a newid ymddygiad er mwyn datblygu adnoddau addysgol a symudedd cymdeithasol effeithiol ar gyfer cynaladwyedd.

Mae modelau ymddygiad pro-amgylcheddol confensiynol yn tueddu i ganolbwyntio ar atgyfnerthu arwynebol (e.e. cymhellion, pwysau cymdeithasol), sy'n arwain at newid ymddygiad tymor byr. Mae newid ymddygiad parhaol yn fwy tebygol lle mae gweithredu'n cael ei ategu gan gymhellion cynhenid (gweithredu wedi'i werthfawrogi er ei fwyn ei hun) na rhai anghynhenid (ymddygiad a wneir ar gyfer gwobrwyo allanol neu i osgoi cosb; Deci & Ryan, 1985). Yn ogystal, mae cynnwys unigolion yn y broses o geisio adnabod atebion i broblemau yn fwy tebygol o ennyn eu cefnogaeth wrth ddeddfu (Lewin, 1953). Dengys yr

ymchwil hefyd bod cyfathrebu effeithiol yn gofyn am ffynonellau gwybodaeth ddibynadwy a negeseuon wedi'u targedu (Petty & Cacioppo, 1993). Awgrymir felly:
y gallai negeseuon ymgyrchoedd ac atebion a ddatblygwyd gan gynulleidfaoedd eu hunain ('cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr') fod yn fwy effeithiol na negeseuon gan arbenigwyr neu ddeunyddiau ymgyrchu a gynhyrchir yn broffesiynol;
y gall targedu negeseuon tuag at werthoedd neu fuddiannau cynulleidfa (e.e. iechyd, bwyd) fod yn fwy perswadiol na negeseuon fwy pen agored.

Bydd yr ymchwil yn profi'r ddau honiad yma drwy ddulliau amrywiol, yn ogystal ag archwilio dynameg newid ymddygiad trwy ystyried a yw newidiadau ymddygiad cychwynnol yn arwain at newidiadau dyfnach o ran ffordd o fyw (yr hyn a elwir yn *'behavioural spillover'*, Thøgersen, 2012).

I gyd fynd â chyfres epig *Netflix* ar fywyd gwyllt (*'Our Planet'*), mae *Silverback Films* a'r *WWF* yn trefnu un o'r ymgyrchoedd cyhoeddus mwyaf erioed ('*Halo*') i godi ymwybyddiaeth am golled bioamrywiaeth a chynaliadwyedd. Mae'r prosiect Doethuriaeth yn cyfuno damcaniaethau Hunan-Benderfyniad, Manylder Tebygolrwydd a *Spillover* yng nghyd-destun ymgyrch cynaliadwyedd aml-gyfrwng byd-eang. Yn benodol, bydd y prosiect yn:
1) Cymharu cynnwys ymgyrch a grëwyd gan ddefnyddwyr gyda chynnwys a grëwyd gan arbenigwyr i weld yr effaith a gant ar ganfyddiadau ac ymddygiadau cynulleidfaoedd (gan gynnwys y defnydd, cefnogaeth polisi, rhyngweithio cymdeithasol);
2) Cymharu effaith gwahanol negeseuon (e.e. iechyd, lles anifeiliaid, cymuned) ar ganfyddiadau ac ymddygiad cynaliadwyedd;
3) Archwilio a yw mabwysiadu newid ymddygiad cychwynnol yn arwain at newid ymddygiad pellach (*spillover*).
Bydd y dulliau'n cynnwys arbrofion labordy ac arbrofion arhydol maes (*longitudinal field experiments*), gan ddefnyddio ac addasu cynnwys a grëwyd yn ystod yr ymgyrch Halo, ochr yn ochr â chyfweliadau ansoddol gydag is-sampl o gynulleidfaoedd ymgyrchu. Byddai'r myfyriwr yn derbyn cefnogaeth a chyd-oruchwyliaeth gan *Silverback Films* a'r *WWF*.

Mae cynaliadwyedd yn egwyddor ganolog Deddf Lles y Dyfodol (2015) Llywodraeth Cymru ac yn anelu at ymgorffori egwyddorion ac amcanion cynaliadwyedd ym mhob agwedd o fywyd cyhoeddus. Byddwn yn canolbwyntio ar gasglu data ar Gymru a Lloegr er mwyn cymharu effaith ymgyrch Halo ar ddinasyddion Cymru (o'i gymharu â Lloegr) ar bolisïau cynaladwyedd, megis cynigion ar gyfer lleihau plastig.
Bydd y myfyriwr wedi ei leoli yn yr Ysgol Seicoleg ac yn cael ei gyd-oruchwylio gan Ysgol y Gymraeg, ynghyd â *Silverback Films* a'r *WWF*.

Yr Ysgoloriaeth:

Dyddiad cychwyn y ddoethuriaeth fydd y 1af o Hydref 2018. Bydd yr Ysgoloriaeth yn talu am eich Ffioedd Dysgu (ar lefel y DU/UE) ynghyd a'r Grant Cynhaliaeth, sef £14,777 y flwyddyn. Ynghyd a'r ffioedd dysgu a grant cynhaliaeth, mae holl fyfyrwyr ymchwil Ysgol Seicoleg yn derbyn hyd at £2,250 yn ystod cyfnod yr ymchwil ar gyfer mynychu cynadleddau ac ati, ynghyd a £500 o arian ychwanegol sydd ar gael drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i bob deiliad Ysgoloriaeth. Bydd gan y myfyriwr gyfrifiadur a swyddfa, cyllid ychwanegol ar gyfer eu hymchwil, mynediad i gyrsiau a ddarperir gan Academi Ddoethurol y Brifysgol a chyrsiau a ddarperir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Byddant yn aelodau o Academi Ddoethurol y Brifysgol a Changen y Coleg Cymraeg.

Meini Prawf:

Ar agor i unigolion o'r DU a Myfyrwyr o'r UE sydd wedi byw yn y DU am 3 mlynedd cyn dechrau'r cwrs.

Rhaid i'r ymgeisydd fod yn rhugl yn y Gymraeg, yn llafar ac ysgrifenedig. Bydd y traethawd hir yn cael ei ysgrifennu yn Gymraeg, a caiff yr arholiad viva ei gynnal yn Gymraeg.

Gan mai dim ond un ysgoloriaeth sydd ar gael, ac yn arferol derbynnir ceisiadau o safon uchel iawn, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn debygol o feddu ar Radd Anrhydedd Dosbarth Gyntaf neu Ail Ddosbarth Uwch ac yn meddu ar brofiad ymchwil perthnasol.

Sut i wneud cais:

Gallwch ymgeisio ar-lein - cewch eich ystyried yn awtomatig wrth ymgeisio am ddoethuriaeth yn Seicoleg, gyda dyddiad dechrau ym mis Hydref 2018 (Côd y Rhaglen RFPDPSYDA)

Defnyddiwch ein gwasanaeth ymgeisio ar-lein os gwelwch yn dda <http://www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate/applying>, a nodwch yn yr adran gyllido yr hoffech gael eich ystyried ar gyfer cyllid gan yr Ysgol.

Nodwch yn glir os gwelwch yn dda eich bod yn gwneud cais am y prosiect penodol yma.

Dyddiad Cau ar gyfer gwneud cais: 12 Mehefin, gyda chyfweliadau (unai wyneb yn wyneb neu dros Skype) i'w cynnal rhwng Gorffennaf 18fed a'r 20fed gyda phenderfyniad i'w wneud erbyn Gorffennaf 25ain.

Gwybodaeth Gyffredinol:
Mae'r Ysgol Seicoleg yn un o'r adrannau Seicoleg mwyaf yn y DU. http://psych.caerdydd.ac.uk/ Roedd yr Ysgol ail yn y DU ar gyfer ymchwil yn REF2014 ac mae'n gyfrifol am weithredu a chefnogi Canolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd (CUBRIC) http://sites.cardiff.ac.uk/cubric/cy/, sydd yn parhau i ehangu ei hymchwil o'r radd flaenaf ym maes niwrowyddoniaeth ymddygiadol, ergonomeg wybyddol, a seicoleg datblygiad, cymdeithasol a fforensig.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydweithio â phrifysgolion Cymru, i sicrhau a datblygu rhagor o gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr Cymru. Mae'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil yn noddi myfyrwyr i astudio tuag at ddoethuriaeth er mwyn 'hyrwyddo a datblygu ysgolheictod, ymchwil a chyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg' a meithrin ymchwilwyr o'r radd flaenaf.

Mae Caerdydd yn ddinas hardd sy'n ffynnu, a chaiff ei chydnabod yn gyffredinol fel lle rhagorol i fyw ac astudio ynddo. Cynhelir nifer o ddigwyddiadau chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol yn stadiwm Principality http://www.principalitystadium.wales/. Mae'n ddinas fywiog sy'n llawn diwylliant, lle mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o'i gwead a'i bywyd bob dydd. Gyda Chaerdydd mor agos i Fannau Brycheiniog a'r arfordir, nid yw antur yn bell i ffwrdd. http://www.bannaubrycheiniog.org/

Am unrhyw gwestiynau anffurfiol, cysylltwch â:	
Enw:	
Ebost:	
Ffôn:	

Am fanylion pellach, cysylltwch â: **Ymchwil Ôl-radd**	
Ebost:	Psych-PhD@cardiff.ac.uk
Ffôn:	+44 (0)29 208 75381
Cyfeiriad:	Mrs Clair Southard Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd Y Tŵr, Plas y Parc Caerdydd CF10 3AT

Studentship Title:	Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2018
Research Area/ Project Title:	Leveraging public support for biodiversity loss through multi-media messaging
Location:	School of Psychology (co-supervised with School of Welsh)
Expected Start Date:	1st October, 2018
Duration:	3 years
Deadline for Application:	5pm Tuesday 12th June 2018

Description of Research Opportunity:

Cardiff University's School of Psychology, alongside the Coleg Cymraeg Cenedlaethol Research Scholarship Scheme, the School of Welsh, Silverback Films and the WWF, are looking for an enthusiastic individual to undertake a PhD project looking into ecological communication.

Over 10,000 species go extinct every year, with human activities (habitat destruction, wildlife trade, climate change, etc.) by far the main cause. Biodiversity loss threatens food and water supplies, and other ecosystems services. Individual action – including consumer choices and citizens' support for policy – is central to causing and potentially mitigating biodiversity loss. While campaign groups and media organisations provide information about threats to wildlife and ecosystems, evidence indicates this may have little effect on individuals' behaviour. A key challenge is to bring together the skills and resources of creative and campaigning professionals with the academic evidence base on persuasion and behaviour change to develop effective educational and social mobilisation resources for sustainability.

Conventional pro-environmental behaviour models tend to focus on superficial reinforcement (e.g., incentives, social pressure), which leads to short-term behaviour change. Durable behaviour change is more likely where action is underpinned by intrinsic motivations (action appreciated for its own sake) than extrinsic ones (behaviour undertaken for external reward or punishment avoidance). Furthermore, engaging individuals in identifying solutions to problems is more likely to lead to their support for enacting these. The persuasion literature also highlights that effective communication requires trusted sources of information and targeted messages. Taken together, these insights suggest: (a) campaign messages and solutions developed by audiences themselves ('user-generated content') might be more persuasive than expert-derived messaging or professionally-produced campaign materials; and (b) framing messages to audience

values or interests (e.g., health, food) should be more persuasive than untargeted messaging. The research will test both of these assertions in a mixed-methods design, and also explore the dynamics of behaviour change by considering whether initial behaviour changes lead to further lifestyle change (so-called 'behavioural spillover').

Running alongside an epic Netflix-produced wildlife series ('Our Planet'), Silverback Films and WWF are organising one of the largest-ever public campaigns ('Halo') to raise awareness about biodiversity loss and sustainability. The PhD project integrates Self-Determination, Elaboration Likelihood and Spillover theories in the context of a global multi-media sustainability campaign. Specifically, the project will:

1) Compare user-generated with expert-created campaign content for its impact on audience perceptions and behaviours (including consumption, policy support, social interaction);
2) Compare different message 'frames' (e.g., health, animal welfare, community) in their impact on sustainability perceptions and behaviour;
3) Examine whether adoption of initial behaviour change leads to further behaviour change (spillover).

Methods will include lab and longitudinal field experiments, employing and adapting content created within the Halo campaign, alongside qualitative (depth) interviews with a sub-sample of campaign audiences. We will focus data collection on Wales and England to enable a comparison of how the Halo campaign has impacted on Welsh (vs. English) citizens' support for sustainability policies, such as proposals for reducing plastic. The student will be based in the School of Psychology and co-supervised by School of Welsh, but also receive support and co-supervision from Silverback Films and WWF.

Award:

The studentship will commence 1st October, 2018 and will cover your tuition fees (at UK/EU level) as well as a maintenance grant of £14,777. As well as tuition fees and a maintenance grant, all School of Psychology students receive conference and participant money (approx. £2,250 for the duration of the studentship) plus an additional £500 available to research students through the Coleg Cymraeg. They also receive a computer and office space, additional funding for their research, and access to courses offered by the University's Doctoral Academy and courses provided by the Coleg Cymraeg and become members of the University Doctoral Academy and the Coleg Cymraeg Cenedlaethol Cardiff University Branch.

Eligibility:

Full awards (fees plus maintenance stipend) are open to UK Nationals, and EU students who can satisfy UK residency requirements. To be eligible for the full award, EU Nationals must have been in the UK for at least 3 years prior to the start of the course for which they are seeking funding, including for the purposes of full-time education.

As a condition of the funder, the successful applicant must be *fluent in written and spoken Welsh*. Their thesis will need to be written in Welsh, and their viva exam will be conducted in Welsh.

As only one studentship is available and a very high standard of applications is typically received, the successful applicant is likely to have a very good first degree (a First or Upper Second class BSc Honours or equivalent) and/or be distinguished by having relevant research experience.

How to apply:

You can apply online - consideration is automatic on applying for a PhD in Psychology, with an October 2018 start date (programme code RFPDPSYDA).

Please use our online application service at
www.cf.ac.uk/regis/general/applyonline/index.html

and specify in the funding section that you wish to be considered for School funding.

Please specify that you are applying for this particular project.

Application deadline: 12th June, with interviews (either in person or by Skype) being held on or around 18 - 20th July and decisions being made by 25th July.

General Information:
The School of Psychology is one of the largest and most successful in the UK (http://www.cf.ac.uk/psych/). The School's excellent standard of research and teaching has been recognised in every Research Assessment Exercise. It has its own brain-imaging centre (http://www.cf.ac.uk/psych/cubric/), enhancing the international-leading research in behavioural neuroscience, cognitive ergonomics, forensic, social and developmental psychology.

The Coleg Cymraeg Cenedlaethol works with universities across Wales to develop Welsh language medium opportunities for students. The Research Scholarship Scheme's objective is to 'promote and develop of scholarship, research and publishing through the medium of Welsh' by attracting and nurturing the most brilliant and enthusiastic graduates.

Cardiff is the youngest capital city in Europe and the fastest growing in the UK. It plays host to many national and international sporting events at the Millennium Stadium (http://www.millenniumstadium.com/). Culturally, the city is thriving, with the Wales Millennium Centre (http://www.wmc.org.uk/) in Cardiff Bay. Cardiff is in very close proximity to the beautiful Welsh countryside (http://www.breconbeacons.org/), has a two hour rail link to London and a (cheap) one hour air link to Paris and Amsterdam (http://www.cardiffairportonline.com/)

Please address any informal enquiries to:	
Name:	
Email:	
Phone:	

For further information please contact: **Postgraduate Research Enquires**	
Email:	Psych-PhD@cardiff.ac.uk
Phone:	+44 (0)29 208 75381
Address:	Mrs Clair Southard School of Psychology Cardiff University Tower Building, Park Place Cardiff CF10 3AT